ct WEEK
dathlu cludiant cymunedol

**Mwy na Bws Mini**

**13–17 Hydref 2025**

# Rhestr Wirio i Ymgysylltu â Chynrychiolwyr Etholedig Lleol

### *Cyn yr Ymweliad: Paratoadau*

☐ **Canfod cynrychiolwyr allweddol** (Aelod Seneddol, MSP, MLA, AS, cynghorwyr, maer)

☐ **Casglu manylion cyswllt** (e-bost, ffôn, cyfeiriad)

☐ **Rhoi blaenoriaeth i'r rhai sy'n cytuno â'ch amcanion**

☐ **Anfon gwahoddiad wedi'i deilwra,** gan ddefnyddio templed CTA

☐ **Adolygu Pecyn Cymorth CTA** (llythyrau, datganiadau i'r wasg, cyfryngau cymdeithasol, astudiaethau achos)

☐ **Trefnu amserlen ar gyfer ymweliadau** a helpu â'r logisteg os oes angen

### *Yn ystod yr Ymweliad*

☐ **Briffio eich tîm** ar yr amserlen a'r ymwelwyr

☐ **Dynodi tywysydd** ar gyfer y cynrychiolydd

☐ **Croeso a thaith**: cyflwyno'r staff, gwirfoddolwyr, teithwyr; dangos y gweithrediadau

☐ **Rhannu hanesion am effeithiau** (gofal iechyd, addysg, lleihau ynysigrwydd) Defnyddio dyfyniadau a geirdaon gwirioneddol

☐ **Disgrifio'r heriau**

☐ **Gofyn iddynt ddal ati i'ch cefnogi**

### *Cyfryngau a Chyfathrebu*

☐ **Paratoi datganiad i'r wasg** (defnyddio templed CTA)

☐ **Gwahodd y cyfryngau lleol** (ffotograffydd/newyddiadurwr)

☐ **Cofnodi a rhannu'r ymweliad** ar gyfryngau cymdeithasol (tagio cynrychiolwyr)

### *Ar ôl yr Ymweliad*

☐ **Anfon neges o ddiolch** – ailadrodd eich prif geisiadau a'ch gwerthfawrogiad

☐ **Gwerthuso'r effaith** – Lefel yr ymgysylltiad, adborth, a'r camau nesaf

☐ **Cadw mewn cysylltiad –** rhannu diweddariadau, eu gwahodd i ddigwyddiadau yn y dyfodol



# 1. Gwahodd Cynrychiolwyr Etholedig Lleol (Paratoadau Cyn y Digwyddiad)

**Canfod Cynrychiolwyr Etholedig Lleol**
Ymchwilio a chasglu manylion cyswllt (e-bost, ffôn, cyfeiriad swyddfa) ar gyfer y cynrychiolwyr etholedig lleol canlynol:

- Aelodau Seneddol Lleol (ASau) Dod o hyd i'ch AS - ASau ac Arglwyddi - Senedd y DU
- Aelodau o'r Cynulliad Deddfwriaethol (MLA) yng Ngogledd Iwerddon Dod o Hyd i'ch MLA
- Aelodau o Senedd yr Alban (MSP) yn yr Alban Aelodau cyfredol a blaenorol o Senedd yr Alban (MSP)
- Aelodau'r Senedd (ASau) yng Nghymru Dod o hyd i Aelod o'r Senedd
- Cynghorwyr a Meiri Lleol

**Awgrym:** Os oes sawl cynrychiolydd y gellid eu gwahodd, dewiswch y rhai sydd fwyaf addas i'ch sefydliad, ar sail eu rôl, eu dylanwad, ac i ba raddau maent yn cytuno â'ch nodau. Rhowch flaenoriaeth i gynrychiolwyr sydd mewn sefyllfa i gefnogi ac eiriol dros drafnidiaeth gymunedol.

**Addasu Gwahoddiadau**
Gallwch ddefnyddio templed CTA i addasu eich gwahoddiad, gan ganolbwyntio ar faterion neu fuddion penodol sy'n berthnasol i etholaeth y cynrychiolydd. Pwysleisiwch sut mae'r gwasanaeth yn cael effaith yn eu cymuned ac yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau.

Gwahoddwch hwy i ymweld â'ch gwasanaeth naill ai yn ystod neu cyn Wythnos Trafnidiaeth Gymunedol (13–17 Hydref). Dylech fod yn ymwybodol o'u hamserlenni llawn ac anfon gwahoddiadau mor gynnar â phosibl i'w galluogi i wneud trefniadau.

**Adolygu Pecyn Cymorth CTA**
Dewch yn gyfarwydd â phecyn cymorth CTA, sy'n cynnwys adnoddau fel templedi ar gyfer llythyrau gwahodd, datganiadau i'r wasg, templedi cyfryngau cymdeithasol, ac astudiaethau achos o ymgysylltu llwyddiannus.

**Cydlynu Amserlenni Ymweliadau**
Cysylltwch i drefnu ymweliad yn ystod Wythnos CT. Holwch eto, yn gwrtais, os bydd angen, gan gynnig help â threfniadau â logisteg i wneud yr ymweliad mor ddidrafferth â phosibl.



## 2. Croesawu Cynrychiolwyr Lleol fel rhan o Wythnos Trafnidiaeth Gymunedol (13 –17 Hydref)

**Croesawu ac Ymgysylltu**
Brifiwch eich staff a gwirfoddolwyr ar yr ymweliad a'r cynrychiolwyr allweddol a fydd yn galw. Dynodwch staff i dywys y cynrychiolwyr ac i sicrhau eu bod yn deall gweithrediadau eich gwasanaeth.

Yn ystod yr ymweliad, croesawch y cynrychiolwyr yn gynnes, a'u cyflwyno i staff allweddol, gwirfoddolwyr, a theithwyr, a chynnig taith o amgylch eich cyfleusterau, gan ddangos agweddau fel eich fflyd, swyddfeydd, a chydlyniad gwirfoddolwyr. Dylech annog rhyngweithio â theithwyr, yn enwedig rhai sy'n elwa ar y gwasanaeth.

**Pwysleisio Effaith eich Gwasanaeth**
Rhannwch storïau am lwyddiant sy'n dangos yr effaith bositif ar gymunedau lleol, fel mynediad gwell at ofal iechyd, addysg, neu leihau ynysigrwydd. Rhannwch adroddiadau uniongyrchol gan deithwyr neu aelodau o'r gymuned sydd wedi cael help gan eich gwasanaeth. Soniwch am yr heriau, gan gynnwys yr angen am arian, i foderneiddio'r fflyd, a phrinder gweithwyr.

**Rhannwch Storïau am Lwyddiant Lleol**: Pwysleisiwch effaith bositif eich gwasanaeth ar y gymuned. Canolbwyntiwch ar ganlyniadau gweladwy fel mynediad gwell at ofal iechyd, addysg, cyfleoedd cyflogaeth, a lleihau ynysigrwydd cymdeithasol. Defnyddiwch ddyfyniadau neu storïau cryno gan deithwyr, gwirfoddolwyr, neu breswylwyr lleol sydd wedi elwa'n uniongyrchol. Mae geirdaon personol yn bwerus a chofiadwy.

**Pwysleisiwch y Prif Heriau**: Byddwch yn onest am y rhwystrau rydych yn eu profi fel:

- Cyllid annigonol neu ansicr
- Yr angen i foderneiddio'r fflyd (e.e., newid i gerbydau mwy gwyrdd)
- Prinder gweithwyr, yn enwedig gyrwyr a gwirfoddolwyr

**Rhowch Wahoddiad iddynt i Weithredu**: Gofynnwch i'ch AS sut y gallant gefnogi eich gwaith ac awgrymwch ffyrdd penodol o helpu, fel:

- Rhannu eich pryderon yn y Senedd drwy gwestiwn neu gynnig
- Hyrwyddo trafnidiaeth gymunedol mewn trafodaethau ar gyllideb y cyngor lleol
- Defnyddio eu pŵer i gynnull pobl i ddod â rhanddeiliaid ynghyd (e.e. DWP, Y GIG, awdurdodau trafnidiaeth)



**Gwnewch Bethau'n Hawdd**: Rhowch ddeunyddiau briffio, ystadegau, a negeseuon allweddol iddynt fel y byddant yn gallu eu defnyddio yn gyhoeddus neu mewn trafodaethau gwleidyddol.

**Paratowch adnoddau i Ymgysylltu â'r Cyfryngau**
Paratowch ddatganiad i'r wasg ar gyfer y cyfryngau drwy ddefnyddio templed CTA. Os yn bosibl, trefnwch fod newyddiadurwyr neu ffotograffwyr lleol yn rhoi sylw i'r ymweliad. Postiwch ddiweddariadau, ffotograffau, a fideos ar gyfryngau cymdeithasol, gan dagio cynrychiolwyr i wella gwelededd.

## 3. Cysylltu ar ôl yr Ymweliad

**Anfonwch Nodyn o Ddiolch**
Ar ôl yr ymweliad, anfonwch lythyr neu e-bost o ddiolch personol at bob cynrychiolydd, gan fynegi eich gwerthfawrogiad am eu hamser ac am gymryd rhan yn Wythnos CT. Pwysleisiwch eto bwysigrwydd eu cefnogaeth i gynnal cyllid a buddsoddiad mewn gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol.

**Adolygu Llwyddiant yr Ymweliad**
Gwerthuswch effeithiolrwydd yr ymweliad drwy ystyried a oedd y cynrychiolwyr wedi ymgysylltu mewn modd ystyrlon â'ch gwasanaeth, a oedd y negeseuon allweddol wedi'u cyfleu, ac a gafwyd adborth neu gefnogaeth ar unwaith.

**Cadw mewn Cysylltiad**
Dylech gadw mewn cysylltiad â chynrychiolwyr etholedig drwy anfon diweddariadau ar gynnydd eich gwasanaeth ac unrhyw ganlyniadau sydd wedi deillio o'u cefnogaeth. Gallwch eu gwahodd i ddigwyddiadau neu gynulliadau eraill yn y dyfodol i ddal ati i eiriol o blaid trafnidiaeth gymunedol.

